Creu creadur

Trosolwg

Yn y gweithgaredd hwn, bydd y plant yn creu eu creaduriaid eu hunain o fwd, a fydd wedi'u hysbrydoli gan y mannau awyr agored sydd o'u cwmpas. Drwy ddewis ble y gallai eu creadur fod yn byw a beth y gallai fod arno ei angen, bydd y plant yn dechrau archwilio'r syniad bod gan anifeiliaid nodweddion arbennig i'w helpu i oroesi.



Gweithgareddau

Gwahoddwch y plant i archwilio'r ardal awyr agored a dewis lle i'w creadur fyw ynddo, e.e. dan lwyn neu wrth ymyl wal neu goeden. Mae'r plant yn defnyddio mwd neu glai i greu creadur bach, gan ychwanegu deunyddiau naturiol megis brigau, dail, cerrig neu risgl. Mae oedolion yn cynorthwyo'r plant i feddwl am eu creadur, drwy ofyn cwestiynau syml am sut y mae'r creadur yn bwyta, ble y mae'n cuddio, a sut y mae'n cadw yn ddiogel. Caiff y plant eu hannog i roi enw i'w creadur a dweud pam y mae'n edrych fel y mae.

Offer

- Mwd wedi'i gymysgu â dŵr neu glai
- Darnau rhydd naturiol (brigau, dail, cerrig, rhisgl)
- Powlenni neu hambyrddau
- Amrywiaeth o fannau awyr agored i'w harchwilio

Cwestiynau allweddol

Ble mae fy nghreadur yn byw?
Beth mae fy nghreadur yn ei fwyta?
Sut mae fy nghreadur yn cadw'n ddiogel?
Pa nodweddion arbennig sydd gan fy nghreadur i oroesi?
Beth yw enw fy nghreadur?

Rhowch lun o'ch creadur yma